

Memorandwm esboniadol i Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Tirluniau, Natur a Choedwigaeth yn yr Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi golwg deg a rhesymol ar effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hyn i'w gweld yn Rhan 2 yr atodiad i'r memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS

Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
15 Rhagfyr 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau i Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022. Y rheoliadau hyn:

- Dirymu a disodli Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunydd Lluosogi (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022.
- Datrys anghysondeb yn nheitl a rheoliad 1 y fersiwn Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau fel bod y teitlau Cymraeg a Saesneg yn cyfeirio at "(Cymru) (Diwygio)"
- Newid rheoliad 2(2)(a) yn fersiwn Cymru o'r Rheoliadau i sicrhau cysondeb â fersiwn Saesneg y Rheoliadau. Yn benodol, "*pla cwarant* ..." i gael ei ddiwygio i ddarllen "*pla cwarant* ...". Mae hyn yn ei gwneud yn gliriach pa destun sy'n cael ei newid.
- Diwygio Rheoliadau 2(2)(a)(i) a (iii) yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau i gynnwys dyfynodau sy'n rhagflaenu'r term diffiniedig ym mharagraff A1 o Atodlen 2 o'r Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC) ar Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 ar 24 Hydref 2022 ([SL\(6\)267](#)). Yn yr adroddiad hwnnw fe wnaethant nodi nifer o gywiriadau y dylid eu gwneud i'r Offeryn Statudol hwnnw. Cytunodd Llywodraeth Cymru i wneud y cywiriadau hynny ac mae'n gwneud hynny drwy'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir o dan adran 1(1) o Atodlen 2 o Ddeddf Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Fel y nodwyd yn y [Memorandwm Esboniadol](#) i Farchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022, ac wedyn yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, cynigir bod yr offeryn hwn yn destun gweithdrefn datrys negyddol wrth i'r offeryn gywiro diffygion technegol ac nid yw'n cyflwyno baich ychwanegol ar y cyhoedd, ac nid yw'r gwelliannau hyn yn ddadleuol chwaith. Felly, dylai fod yn destun dirymu.

Ystyriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fersiwn ddrafft o'r rheoliadau hyn ar 12 Rhagfyr 2022, a chytunodd fod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn. Gellir gweld copi o adroddiad y Pwyllgor drwy'r ddolen ganlynol: [LJC33-22 - Paper 34 - Draft report.pdf \(senedd.wales\)](#)

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, mae'r Llywydd wedi cael gwybod bod Offeryn Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi

Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 yn dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac mae'r pwerau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. O'r herwydd, mae angen i'r Rheoliadau ddod i rym erbyn 31 Rhagfyr.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio'r pŵer yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol neu ddiffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Yn unol â gofynion y Ddeddf honno mae'r Gweinidog wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Marchnata Hadau Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 a'u disodli yma, a gwneud mân gywiriadau i'r Rheoliadau hynny, fel yr amlinellir uchod.

Mae'r Rheoliadau hynny'n diwygio deddfwriaeth eilaidd sy'n ymwneud â marchnata deunydd plannu hadau a ffrwythau i gywiro diffygion y gallu i weithredu nad oedd yn cael eu hystyried wrth ddiwygio offerynnau cynharach. I gael rhagor o wybodaeth am effaith y Rheoliadau hynny, gweler y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â hwy. Gellir gweld hyn yma: [sub-ld15375-em-e.pdf \(senedd.cymru\)](#).

4. Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu a disodli'r Rheoliadau blaenorol er mwyn sicrhau cysondeb rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau. Nid ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau i'r polisi nac effaith y ddeddfwriaeth flaenorol.

5. Ymgynghoriad

Gan mai mân gywiriadau oedd i'r Rheoliadau, ni ddigwyddodd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddio (RIA)

Gan fod y Rheoliadau'n gwneud mân gywiriadau i ddiweddarau is-ddeddfwriaeth ac nad yw'r gwelliannau yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut mae'n cael ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yn nghôd ymarfer

Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar is-ddeddfwriaeth.

Atodiad A

Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Gellir gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Ym mha le y nodir y gofyniad	I bwy y mae'n berthnasol	Yr hyn sy'n ofynnol ganddo
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7 Rheol Sefydlog 27.1A	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud Offeryn Statudol Negyddol. Mae paragraff 3(7) yn berthnasol i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i egluro pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJC) (fel pwyllgor sifftio)
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2.	Datganiad yn nodi nad yw'r Offeryn Statudol yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a	Datganiad i egluro'r rhesymau da dros lunio'r offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn ffordd resymol o weithredu.

		23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2.	
Cydraddoldebau	Is-baragraff (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010, ac i ddeddfwriaeth a luniwyd oddi tanynt. Datganiad yn nodi bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2.	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am bwrpas yr offeryn, er enghraifft p'un a fwriedir mân newidiadau neu newidiadau technegol yn unig i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm wrthi.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30,	Yn berthnasol i	Datganiad i egluro pam ei bod yn

	Atodlen 7	<p>Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 18(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na all Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na all Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer.</p>	briodol greu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath.
Brys	Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond gan ddefnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7.	Datganiad yn nodi bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen llunio'r Offeryn Statudol gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno.

Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad(au) Sifftio

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, dylai Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 fod yn destun dirymiad yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru (h.y. y weithdrefn negyddol)". Mae hyn yn wir oherwydd: mae'r offeryn yn cywiro mân anghysondebau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 ac nid yw'n cyflwyno baich ychwanegol ar y cyhoedd, ac nid yw'r diwygiadau hyn yn ddadleuol ychwaith

2. Datganiad Priodoldeb

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 yn gwneud mwy nag sy'n briodol.

Mae hyn yn wir oherwydd bod yr offeryn hwn yn cywiro mân anghysondebau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022.

3. Rhesymau da

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod nhw'n ffordd resymol o weithredu." Sef,

Mae hyn oherwydd bod yr offeryn yn cywiro mân anghysondebau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022

4. Cydraddoldebau

4.1 Mae'r Gweiniodg Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths wedi gwneud y datganiad(au) canlynol "Nid yw'r offeryn drafft yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 neu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny.

4.2 Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r offeryn drafft, mae'r Gweiniodg Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

5. Esboniadau

Gwnaed y datganiad esboniadau ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) ym mhrif gorff y memorandum esboniadol hwn.

6. Troseddau

Ddim yn ofynnol.

7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol

Ddim yn ofynnol.

8. Brys

Ddim yn ofynnol.